Golygfa Chwech

Cast (gwneud cylch a dechrau llafar ganu) lager, shots a vodka mawr, yfed ag yfed a disgyn i lawr

Y cast i gyd yn dechrau dawnsio ac yn cerdded o gwmpas yn sigledig fel pe baen nhw wedi meddwi. Rosie, Michael, Ben a Chloe yn dawnsio yn ymyl ei gilydd a Ben yn dynwared be' mae Rosie a Michael yn ei wneud.

Ben Chloe.. sbïa arnyn nhw (pwyntio at Rosie a Michael) a sbïa arna' ni

Chloe Be?

Ben Chloe.. sbïa arnyn nhw, a sbïa arna' ni!

Chloe Ok, 'nawn ni fod yr un fath a nhw ta'

Chloe a Ben yn dawnsio – ond Ben yn gwneud symudiadau rhywiol awgrymog y tu ôl iddi hi.

Mike Hei! Dos amdani boi!

Chloe Be' ti neud?

Ben Ah c'mon Chloe. Tyrd i nôl diod

Ben a Chloe'n cerdded yn sigledig tuag at yr ochr, wedyn Rosie a Michael yn dechrau siarad

Rosie Ma' Ben bendant yn mynd i gael ei ffordd ei hun heno!

Michael Be' ti feddwl?

Rosie Efo Chloe!

Michael Da iawn fo!

Rosie		Wel gawn ni weld sut fydd o fory.

Chloe a Ben  yn cerdded yn sigledig yn ôl tuag at ganol y llwyfan.  Chloe'n amlwg wedi meddwi a'r ddau'n methu siarad yn iawn

Ben		Cymera ddiod arall - dyma chdi (pasio diod arall iddi hi)

Chloe		Wyt ti'n trio'n meddwi fi?

Ben		Na, dim ond un neu ddau ti 'di gael

Chloe		Ti'n siŵr ?

Ben		Yndw, rŵan tyrd i ddawnsio

Ben a Chloe'n dawnsio eto, a Ben yn gwneud yr un peth ag o'r blaen.

Mike		Ha ha! Mae o wrthi eto!

Chloe		Ben paid!

Ben		Be di dy broblem di?

Chloe		'Dwi jyst ddim isio.

Ben yn cychwyn cerdded i ffwrdd

Chloe		Ben, na, aros.

Ben		(Ben yn gafael yn sydyn ac yn dynn yng ngên Chloe). Gwranda Chloe, 'sa ti'n fy ngharu 'sa ti'm yn bod fel hyn.

Ben yn gwthio Chloe o'r ffordd ac yn gadael (cerddoriaeth yn tawelu)

Chloe		Doeddwn i ddim wedi meddwl 'i 'neud o mor flin. Dim ond chwarae o gwmpas oedd o.  Mi ddylwn i  fod wedi gadael iddo fo neud.  Rhaid i mi ffeindio fo.  Rhaid i mi ymddiheuro.  Ben, dwi'n sori.